



Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Cyngor y Gweithlu Addysg

**Penodi 2 Aelod
(Cymraeg Hanfodol)**

Dyddiad cau: 27 Tachwedd 2018



Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cyngor y Gweithlu Addysg

Cynnwys

Gwneud Cais

Atodiad A: Penodi /Aelod o Cyngor y Gweithlu Addysg

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod o Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma:
<https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	27 Tachwedd 2018
Llunio rhestr fer:	30 Tachwedd 2018
Cyfweliadau:	7 & 8 Ionawr 2019

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Penodiadau Cyhoeddus

E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cyngor y Gweithlu Addysg a rôl yr Aelod, cysylltwch â Nick Srdic ymlaen:

Ffôn: 030000 253973

E-bost: Nick.Srdic@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 03000 255454 neu anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Aelod o Cyngor y Gweithlu Addysg

Disgrifiad o'r rôl

Disgwylir i Aelodau'r Cyngor:

- sicrhau y caiff safonau uchel eu cadw bob amser o ran gweinyddu a gwneud penderfyniadau;
- rhoi trywydd cyffredinol i'r Cyngor drwy oruchwylio'r gwaith o lunio'r Cynllun Strategol;
- sicrhau'r canlyniadau disgwyliedig drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt;
- sicrhau nad yw'r Cyngor yn gweithredu tu hwnt i'w rymoedd a'i swyddogaethau, rhai sydd wedi'u diffinio'n statudol neu fel arall, neu unrhyw gyfyngiadau gwariant a nodir yn nheletrau ac amodau Llywodraeth Cymru. Cynghorir aelodau ar y materion hyn fel arfer gan Brif Weithredwr y Cyngor a'i gynghorwyr cyfreithiol;
- parchu penderfyniadau a pholisiau'r Cyngor yn gyhoeddus. Mae aelodau'n Gweithiuo'n gydweithredol ac yn cydnabod bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan fwyafrif, hyd yn oed os ydynt yn anghytuno â'r penderfyniadau hynny.

Manyleb y Person

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus:

1. dealltwriaeth glir o faterion sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru ac amcanion y Cyngor
2. dealltwriaeth o bwysigrwydd cofrestru'n broffesiynol a rheoleiddio'r gweithlu addysg ehangach, a'r manteision sydd ynghlwm wrth wneud hynny
3. dealltwriaeth glir o swyddogaethau ac amcanion strategol y Cyngor, a blaenoriaethau ei randdeiliaid;
4. mynychu cyfarfodydd, gan baratoi ar eu cyfer a chyfrannu atynt yn llawn;
5. darllen, ystyried a dadansoddi dogfennau cymhleth a chyfrannu at drafodaethau ar lefel strategol;
6. cyfathrebu'n effeithiol, gan wrando, dylanwadu a herio mewn ffordd adeiladol;
7. bod yn rhan o wneud penderfyniadau gan gyfrannu barn ddoeth;
8. datblygu cydberthnasau effeithiol a Gweithluo'n dda fel rhan o dîm;
9. dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion gwahaniaethol;
10. ymrwymiad i *Safonau'r Gymraeg* a arddelir gan y Cyngor;
11. ymrwymiad i '*Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*' Nolan, a'r tair egwyddor ychwanegol a amlinellir yn y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (paragraff 4);
12. cydymffurfio â'r *Cod Ymddygiad ac Arferion Da ar gyfer Aelodau*;
13. fel y nodir yn adran 3(5) o Atodlen 1 i *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014*, gweithredu fel unigolyn nid fel cynrychiolydd corff neu sefydliad y mae'n aelod ohono, nac unrhyw berson, corff neu sefydliad sydd wedi enwebu'r unigolyn dan sylw.
14. dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu da.

Cyngor y Gweithlu Addysg

Sgiliau yn y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu sgiliau dwyieithog o fewn apwyntiadau cyhoeddus, ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n medru Gweithluo yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sgiliau yn y Gymraeg - Hanfodol

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014 sy'n llywodraethu penodiadau i'r Cyngor:

Ni fydd unrhyw ymgeisydd yn gymwys i wneud cais:

- (a) os yw'r person dan sylw wedi'i wahardd rhag cyflawni gweithgareddau'n ymwneud â phlant o fewn ystyr adran 3(2) Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;
- (b) os yw'r person dan sylw wedi'i wahardd rhag addysgu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002;
- (c) os yw'r person dan sylw wedi'i wahardd rhag cael ei gyflogi fel athro yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002;
- (d) os caiff gorchymyn disgyblu ei wneud mewn perthynas â'r person dan sylw o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1998 ac felly bod y person dan sylw'n anghymwys i'w gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;
- (e) os caiff gorchymyn disgyblu ei wneud mewn perthynas â'r person dan sylw o dan adran 26 o Ddeddf 2014, ac felly bod y person dan sylw'n anghymwys i'w gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014;
- (f) os yw'r person dan sylw wedi'i anghymwyso o gael ei gyflogi fel athro mewn unrhyw ysgol yn rhinwedd gorchymyn a wnaed—
- (i) gan driwlynlys annibynnol ar gyfer ysgolion o dan adran 470 o Ddeddf 1996, neu
- (ii) gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 471 o Ddeddf 1996; neu
- (Ff) os yw'r person yn anghymwys i'w gofrestru fel athro, neu wedi'i anghymwyso rhag bod yn athro mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

Cyngor y Gweithlu Addysg

Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn wybyddus ar ôl eu penodi.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd yn ac o gwmpas Caerdydd.
Ymrwymiad Amser: Fel arfer disgwylir ymrwymiad amser o hyd at 12 diwrnod y flwyddyn i ymgymryd â gwaith y Cyngor.
Hyd y penodiad: Bydd penodiadau i'r Cyngor am gyfnod o 4 blynedd a byddant yn dechrau ar 1 Ebrill 2019 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

Taliad Cydnabyddiaeth: Ni fydd yr Aelodau yn cael eu talu am eu gwasanaeth ond byddant yn cael costau teithio, cynhaliaeth a threuliau eraill sy'n gysylltiedig â'u gwaith i'r Cyngor.

Y Cyngor fydd yn penderfynu ynghylch ad-dalu costau a ysgwyddir gan gyflogwyr aelodau'r Cyngor wrth iddynt ymgymryd â gwaith y Cyngor. Fel arfer, gall cyflogwr hawlio'r gyfradd gyflenwi ddyddiol, yn ddibynnol ar gyflogaeth yr aelod.

Yn achos aelod sy'n hunangyflogedig, gall y Cyngor ad-dalu unrhyw golledion sy'n deillio o fusnes y Cyngor, hyd at lefel y gyfradd gyflenwi ddyddiol gyfwerth. Bydd angen tystiolaeth o statws cyflogedig – a thystiolaeth o'r colledion eu hunain – i gefnogi unrhyw hawliad. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar y gyfradd a delir mewn ad-daliad o'r fath. Telir symiau o'r fath drwy system gyflogres y Cyngor, gydag unrhyw ddiidyniadau statudol wedi'u gwneud.

Atebolrwydd : Penodir Aelodau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac maent yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, trwy'r Cadeirydd, am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Telerau'r Penodiad

Caiff y penodiadau eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Cyngor y Gweithlu Addysg, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Cymorth Aelodau Ag Anableddau

Cymerir pob cam posibl i ddarparu unrhyw gefnogaeth y gofynnir yn rhesymol amdani gan aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cyngor.

Hyfforddiant Sefydlu

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus fynd i sesiwn hyfforddiant sefydlu a chyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl eu penodi, ar 11 a 12 Ebrill 2019.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg

Cefndir

Cyngor y Gweithlu Addysg yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau Addysg Bellach, yn ogystal â Gweithluwr Cymorth Ieuencid a phobl sydd ynghlwm wrth ddysgu seiliedig ar waith.

- O dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, prif amcanion a swyddogaethau'r Cyngor yw: cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru;
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon a phobl eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru;
- diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- sefydlu a chynnal Cofrestr Ymarferwyr Addysg;
- cynnal Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg;
- ymchwilio i, a gwrando ar, honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai fwrw amheuaeth ar briodoldeb ymarferydd i ymarfer;
- achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a monitro cydymffurfiaeth â meini prawf cenedlaethol;
- darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill ynghylch materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu addysg ac addysgu a dysgu;
- monitro Sefydlu a gwrando ar apelïadau Sefydlu (lle y bo'n berthnasol) ar gyfer athrawon;
- hybu gyrfaoedd yn y gweithlu addysg;
- ymgymryd â gwaith penodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu ar gais Llywodraeth Cymru.

Ariennir Cyngor y Gweithlu Addysg gan ffioedd cofrestru ymarferwyr, ond mae'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gweithgareddau canlynol yr ymglymerir â hwy ar ein rhan:

- gweinyddu dyfarnu Statws Athro Cymwys (SAC);
- Trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu, y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a Datblygiad Proffesiynol Cynnar;
- datblygu a chynnal y Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- gwrando ar apelïadau Sefydlu a chyhoeddi tystysgrifau Sefydlu;
- Achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon.

Cyngor y Gweithlu Addysg

O dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, prif amcanion a swyddogaethau'r Cyngor yw.

Yr Aelodau

Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg bedwar aelod ar ddeg. Penodir saith aelod yn uniongyrchol drwy system penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a phenodir saith aelod yn dilyn enwebiadau gan ystod o randdeiliaid a restrir yn yr Atodlen i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Penodir aelodau'r Cyngor am gyfnod o bedair blynedd. Y Cyngor sy'n gosod ei gyfeiriad strategol ei hun, ac ef sy'n gyfrifol am ei lywodraethiant.

Bydd gan y Cyngor bwyllgorau sefydlog amrywiol a fydd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar enw bob pwyllgor.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am waith 'Cyngor y Gweithlu Addysg' drwy anfon e-bost i ewc.enquires@llyw.cymru. www.cga.cymru.

Ysgrifenyddiaeth

| Darperir cefnogaeth ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd gan yr EWC ei hun.

Bydd gan y Cyngor nifer o bwyllgorau sefydlog a fydd yn cynnwys aelodau'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn penderfynu enw pob pwyllgor.

Mae rhagor o wybodaeth am waith 'Cyngor y Gweithlu Addysg' ar gael drwy e-bostio ewc.enquires@llyw.cymru neu drwy fynd i www.ewc.wales.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 27 Tachwedd 2018. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Disgwylir cynnal cyfweiliadau ym mis Ionawr 2019.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Angela Jardine, Cadeirydd EWC a Dr Sue Davies fel Aelod Panel Annibynnol.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweld ym mis Rhagfyr 2018.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Rhagfyr 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yn ystod Ionawr 2019.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell iYsgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Ysgrifennydd ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Cyngor y Gweithlu Addysg, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Cyngor y Gweithlu Addysg

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Penodiadau Cyhoeddus neu e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Penodiadau Cyhoeddus neu e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.